Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Ymgynghoriad ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

4 Gorffennaf 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 12 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

*Annwyl Cynulliad Cenedlaethol Cymru,*

*Ysgrifennaf atoch ynghylch yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafodd Llywodraeth Cymru ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Rhesymol).*

*O ganlyniad, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth ynghylch nifer yr ymatebion a gafwyd gan bobl sy'n byw yng Nghymru, a nifer yr ymatebion a gafwyd gan bobl sy'n byw y tu allan i Gymru.*

*Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.*

*Yn gywir,*

Gweler yr ymateb isod:

Cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Rhesymol) (Cymru), fel rhan o'i ystyriaeth yng Nghyfnod 1 o egwyddorion cyffredinol y Bil. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 2 Ebrill ac 14 Mai 2019, a daeth cyfanswm o 650 o ymatebion i law.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n gwneud y golygiadau angenrheidiol i'r ymatebion, yn unol â pholisi preifatrwydd y Cynulliad, cyn eu cyhoeddi. Oherwydd y nifer sylweddol o ymatebion a gafwyd, y bwriad yw sicrhau bod ymatebion ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Pwyllgor ym mis Awst, drwy'r linc a ganlyn:

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Bydd y data cryno yr ydym hefyd yn bwriadu eu cyhoeddi yn cynnwys y wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, nodwch y bydd y wybodaeth o ran lleoliad yn anghyflawn. Gofynnodd yr ymgynghoriad dim ond i unigolion a oedd yn ymateb mewn rhinwedd bersonol roi gwybodaeth am eu lleoliad. Ni ofynnwyd i sefydliadau nac unigolion a ymatebodd mewn rhinwedd proffesiynol roi gwybodaeth am eu cod post.

Gan y bydd y wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani yn cael ei chyhoeddi maes o law, nid ydym yn cynnig rhoi'r wybodaeth yn awr gan y bydd modd i chi ei gweld pan gaiff ei chyhoeddi. Felly, mae'r wybodaeth y gofynnir amdani wedi'i heithrio o dan adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Nodir rhagor o resymau dros gymhwyso'r eithriad hwn yn yr Atodiad.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'r cyfeiriad post a ganlyn:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Atodiad
**Adran 22**

Mae adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn darparu bod:

*(1) Information is exempt information if:*
*(a) the information is held by the public authority with a view to its publication, by the authority or any other person, at some future date (whether determined or not);*
*b) the information was already held with a view to such publication at the time when the request for information was made, and*
*(c) it is reasonable in all the circumstances that the information should be withheld from disclosure until the date referred to in paragraph (a).*

Mae adran 22 ar gael os yw'r awdurdod cyhoeddus dan sylw yn cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ac yn bwriadu ei chyhoeddi rywbryd yn y dyfodol. Fodd bynnag, o dan yr holl amgylchiadau mae'n rhaid ei bod yn rhesymol dal y wybodaeth yn ôl nes y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

Gan ein bod wrthi'n gweithio ar y wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw olygiadau sy'n angenrheidiol yn unol â pholisi preifatrwydd y Cynulliad a'n rhwymedigaethau o dan y gyfraith diogelu data, gyda'r bwriad o gyhoeddi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ym mis Awst, rydym o'r farn ei bod yn rhesymol dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ôl ar hyn o bryd.

Mae adran 22 yn eithriad cymwys ac, oherwydd hynny, bydd angen ystyried “prawf lles y cyhoedd”.

Mae'r prawf hwn yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried a yw lles y cyhoedd drwy ddatgelu'r wybodaeth yn gynharach na'r arfer yn gorbwyso lles y cyhoedd drwy beidio â datgelu'r wybodaeth nes y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

Ni allwn weld unrhyw amgylchiadau sy’n awgrymu bod lles y cyhoedd yn gryf o ddatgelu’r wybodaeth yn gynharach na'r arfer yn yr achos hwn. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod lles y cyhoedd drwy lynu wrth y trefniadau presennol, yn hytrach na dargyfeirio adnoddau oddi ar baratoadau i

gyhoeddi'r wybodaeth ar y dyddiad cyhoeddi arfaethedig, yn gorbwyso unrhyw les y cyhoedd drwy ddatgelu'r wybodaeth yn gynharach na'r arfer.

Gan ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r wybodaeth hon yn y dyfodol agos, sef mis Awst ar hyn o bryd, byddem yn fodlon eich hysbysu ar ôl i hyn ddigwydd.